OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 71 (Cy.7)

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004

Wedi'i wneud	-	-	*14 Ionawr 2004*
Yn dod i rym	-	-	*1 Chwefror 2004*

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

A chan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau y mae eu holl weithgareddau neu'n sylweddol eu holl weithgareddau yn cael eu gwneud o dan gytundeb neu yn unol â threfniadau a wnaed gyda pherson sy'n gweithredu fel gwas neu asiant i'r Goron;

Yn awr felly, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**), ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004 a daw i rym ar 1 Chwefror 2004.

Pennu Cyrff Cyhoeddus

2. Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

(**1**) 1993 p.38.
(**2**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).